# Ffurflen
# Ymateb i'r
# Ymgynghoriad


Enw: Menna Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Polisi

Sefydliad: Barnardo's Cymru

Manylion cyswllt:

Menna.thomas@barnardos.org.uk

01639 620771

Barnardo's Cymru
Uned Polisi ac Ymchwil
129-30 Ffordd Llundain
Castell-nedd
SA11 1LE


## Canllawiau DRAFFT ar gyfer comisiynu Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru

Gallwch chi ddarllen yr hysbysiad preifatrwydd yn y ddogfen ymgynghori i weld sut byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth a roddwch.

**Cwestiwn 1** - Ydy'r canllawiau drafft yn cynnig i gomisiynwyr y cyfle i wella'r trefniadau ar gyfer:

a. atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
b. diogelu dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
c. cefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

- Rydyn ni'n bryderus nad yw'r rhestr o sefydliadau/awdurdodau y mae disgwyl i bartneriaethau VAWDASV eu gwahodd i gymryd rhan yn eu gweithgareddau yn cynnwys y rheini sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant y mae VAWDASV yn effeithio arnynt. **Maent yn** cynnwys sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol neu sydd wedi dioddef camfanteisio rhywiol, ond gwyddom fod cam-drin domestig, trais yn erbyn menywod a thrais rhywiol mewn teuluoedd yn gallu arwain at ganlyniadau negyddol dwys eraill i blant:

Mae plant yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd, maent yn dystion i gam-drin domestig ac yn rhan ohono, ac yn aml maent yn cael eu cam-drin yn uniongyrchol: o fewn y sefyllfa honno, mae plant yn gwneud penderfyniadau cymhleth i oroesi, i'w hamddiffyn nhw eu hunain a phobl eraill, i ymyrryd, a phan fo modd, i gario ymlaen â'u bywydau[1].

Pan fo rhieni neu ofalwyr yn rhan o'r cam-drin domestig, gall hynny'n aml gyfrannu at sefyllfa lle mae plant yn profi esgeulustod mewn nifer o ffyrdd.

Mae mudiadau plant yn y sector gwirfoddol yn darparu gwasanaethau cymorth arbenigol i'r plant a'r teuluoedd hyn drwy gymorth teuluol a gomisiynir gan awdurdodau lleol, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a gwasanaethau sy'n cael eu hariannu drwy grant neu'n wirfoddol. Bydd ganddynt ddarlun cyffredinol o'r ffyrdd gorau o ddarparu dulliau atal, amddiffyn a chefnogi i blant a phobl ifanc, ochr yn ochr â chydweithwyr ym maes iechyd, addysg ac mewn gwasanaethau plant a gwasanaethau arbenigol ar gyfer VAWDASV.

Mae'n ymddangos yn hanfodol fod yr arbenigedd hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dull teuluol cydlynus o ddelio â chynlluniau VAWDASV rhanbarthol. Byddai hyn yn cefnogi nodau'r dulliau rhanbarthol, gan gynnwys:

*'sicrhau bod plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr VAWDASV yn derbyn gwasanaethau sy'n cyflawni eu hawl i gael eu diogelu a'u cefnogi' (tudalen 11)*

2. Rydyn ni'n llwyr gefnogi'r pwyslais ar sicrhau bod y gwaith o ddatblygu gwasanaethau yn cael ei lywio gan leisiau pobl y mae VAWDASV yn effeithio arnynt. Mae'r adroddiad, '*Are you listening and am I being heard*' yn rhoi sylw i'r prif faterion wrth roi hyn ar waith, o safbwynt oedolyn sy'n ddioddefwr. Ond nid yw barn plant, eu profiadau na'u hawliau dynol yn ymddangos yn yr adroddiad hwn, felly nid ydynt wedi cyfrannu at y Strategaeth Genedlaethol.

3. Gwasanaethau camdrinwyr (2.8)

   Mae'r adran hon yn cynnwys pwyslais cryf ar oedolion. Ond mae rhai gwasanaethau yng Nghymru yn rhoi sylw i anghenion plant a phobl ifanc sy'n cam-drin, neu sy'n cymryd rhan mewn ymddygiad rhywiol niweidiol, gan gynnwys gwasanaeth Dyfodol Gwell gan Barnardo's. Mae Dyfodol Gwell yn darparu ymyriadau arbenigol i blant a phobl ifanc y mae camfanteisio rhywiol (model Seraf) ac ymddygiad rhywiol niweidiol (model Taith) wedi effeithio arnynt. Yn fwy diweddar, mae hefyd yn darparu gwasanaeth therapiwtig i blant iau sydd wedi cael eu cyfeirio yn sgil cam-drin rhywiol neu ymddygiad rhywiol niweidiol.

[1] http://dera.ioe.ac.uk/9525/1/0064117.pdf

Mae tystiolaeth o gronfa ddata Dyfodol Gwell yn dangos graddfa a natur orgyffwrdd y gamdriniaeth y mae plant a gyfeiriwyd wedi'i phrofi, gyda rhai ohonynt yn ymddangos, neu'n cael eu hystyried, yn gamdrinwyr neu'n ddioddefwyr. Ni waeth drwy ba 'lwybr' mae plant yn cael eu cyfeirio at wasanaeth Dyfodol Gwell i gael cymorth, yn aml iawn mae ganddynt brofiadau cyffredin o drawma a chamdriniaeth. Mae hyn yn golygu bod angen asesiad cychwynnol cynhwysfawr sydd ddim yn gwneud unrhyw dybiaethau, ar sail disgrifiad o'r atgyfeiriad, ynghylch pa gefnogaeth ac ymyriad sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r problemau a gyflwynir. Weithiau mae gan y rheini sy'n cael eu cyfeirio oherwydd ymddygiad rhywiol niweidiol brofiadau dwys eu hunain o gam-drin, sydd heb gael sylw. Weithiau mae'n bosib bod plant sy'n dioddef camfanteisio rhywiol yn camfanteisio ar eraill hefyd, yn ogystal â'u bod yn ddioddefwyr eu hunain.

| STATIC FACTORS | Taith (SHB) | Seraf (CSE) |
|---|---|---|
| Exposure to domestic abuse | 62% | 43% |
| Reported sexual abuse | 40% | 29% |
| Reported physical abuse | 38% | 32% |
| Reported emotional neglect | 55% | 51% |

Mae'n hollbwysig deall sut mae cam-drin a phrofiadau o gam-drin yn siapio plant a phobl ifanc wrth iddynt fynd yn hŷn, er mwyn gallu targedu ymyriadau'n briodol a mynd i'r afael yn y pen draw â chylchoedd o gam-drin ar draws teuluoedd, grwpiau cyfoedion a chenedlaethau.

Yn adran 2:9 Egwyddorion Comisiynu, nodir bod yr egwyddorion yn cynnwys:

*'Ymrwymiad i ddarparu mynediad cyfartal i bob goroeswr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, at wasanaethau holistig, rhywedd-ymatebol, seiliedig ar angen a chryfderau, sydd ag adnoddau priodol ac o ansawdd uchel ar draws Cymru'*

*'Ymrwymiad i ymgysylltu gyda, a holi barn goroeswyr gan gynnwys plant a phobl ifanc er mwyn goleuo dadansoddi anghenion, dyluniad gwasanaethau ac ymatebion system gyfan'*

Mae anghysondeb clir rhwng adran 2:8 a 2:9. Gellid mynd i'r afael â hyn, i raddau, drwy ddisgrifio sut mae gwasanaethau VAWDASV yn cyd-fynd â gwaith byrddau

diogelu lleol.

**Cwestiwn 2** - Ydy'r canllawiau drafft yn ei gwneud hi'n glir beth fydd yn ddisgwyliadwy gan Lywodraeth Cymru ar bob cam o'r broses comisiynu?

Mae disgrifiad priodol ar gael o'r cylch comisiynu, a rhoddir rhagor o wybodaeth drwy gyfeirio at becyn comisiynu Sefydliad Banc Lloyds.

Rydyn ni'n croesawu'r dull cydgynhyrchiol a'r pwyslais ar ganlyniadau yn y broses gomisiynu.

**Cwestiwn 3** - Ydy'r canllawiau drafft yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r gwasanaethau a gomisiynir gael eu seilio ar anghenion rhanbarthol?

Rydyn ni o'r farn ei bod hi'n bwysig caniatáu i ranbarthau allu nodi eu hanghenion penodol, ond byddai'n fuddiol cael llinell sylfaen glir o'r data sydd ei angen i gomisiynu gwasanaethau VAWDASV mewn ardaloedd penodol, er enghraifft:

- Darparu lloches arbenigol
- Darpariaeth yn y gymuned sy'n diogelu ac yn cefnogi teuluoedd
- Gwasanaethau arbenigol penodol i fynd i'r afael ag anghenion therapiwtig dioddefwyr trais domestig – ar gyfer oedolion a phlant
- Gwasanaeth sy'n cynnig cymorth yn benodol i bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- Gwasanaeth sy'n cynnig cymorth yn benodol i bobl LGBTQI

Bydd data ar gael yn hwylus i lywio'r gwasanaethau a ddarperir, ac mae'n bosib bod elfennau ohonynt ar waith yn barod. Bydd mapio'n glir yr elfennau gwasanaeth y dylid rhoi sylw iddynt yn helpu rhanbarthau i sicrhau eu bod yn cynnig ystod briodol o wasanaethau VAWDASV, ac yn arwain at wasanaethau mwy cyson ar hyd a lled Cymru.

Bydd mynnu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn golygu bod dulliau cyfarwyddol yn cael eu hosgoi, felly mae'n bosib sicrhau ymateb ac amrywiaeth leol.

**Cwestiwn 4** - Ydy'r canllawiau drafft yn ei gwneud hi'n glir bod yn rhaid i'r rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses o gynllunio a chomisiynu'r gwasanaethau, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau, dioddefwyr, y trydydd sector a gwasanaethau arbenigol ym maes trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol?

Mae'r canllawiau'n gwneud hyn yn glir. Byddem yn cwestiynu sut i ddarparu adnoddau a

hwyluso hyn. Eto, mae'n bosib fod rhywfaint o hyn ar y gweill eisoes mewn rhai ardaloedd. Byddai'n fuddiol cael awgrymiadau o ddulliau ar gyfer cyflawni hyn yn ystyrlon ac o fewn cyllidebau cyfyngedig, o bosib drwy ddefnyddio dulliau digidol.

**Cwestiwn 5** - Dylai'r canllawiau drafft gael eu darllen ochr yn ochr â'r canlynol:

- Dogfen Gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod a Merched gan y Swyddfa Gartref – Cefnogi Comisiynu'n Lleol (i Loegr) a'r Datganiad Cenedlaethol o Ddisgwyliadau i Gymru a Lloegr,
- Pecyn Cymorth Sefydliad Banc Lloyds, a
- Chanllawiau IPC arweiniol

Ydy hi'n glir bod yn rhaid i'r dogfennau ychwanegol gael eu hystyried ac ydy hyn yn ddefnyddiol ac yn ymarferol?

Mae hyn yn glir, ond mae amheuaeth ynghylch pa mor ddefnyddiol yw cael pedair dogfen i arwain y broses yn hytrach nag un canllaw sy'n glir ac yn llawn disgrifiadau ar gyfer comisiynu.

**Cwestiwn 6** - A oes unrhyw rwystrau eraill i gomisiynu gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol nad ydynt yn cael eu crybwyll yn y canllawiau drafft, a beth fyddai angen ei gynnwys i fynd i'r afael â nhw?

Gan y bydd nifer o ffrydiau cyllido yn cael eu defnyddio i ddarparu'r gwasanaethau hyn, bydd yn bwysig sicrhau synergedd rhwng yr egwyddorion sylfaenol – i sicrhau pwyslais ar ganlyniadau, er enghraifft.

**Cwestiwn 7** - A yw'r amserlenni i gomisiynu gwasanaethau yn unol â'r canllawiau yn ymarferol (o fis Ebrill 2019)?

Yn ein barn ni, dim ond arweinwyr grŵp cynllunio VAWDASV all ateb y cwestiwn hwn yn llawn, yn hytrach na mudiadau unigol fel ni. Fodd bynnag, bydd y Cynlluniau Braenaru Cyllid Hyblyg ar waith o 2018-19 ymlaen, a bydd llawer yn dibynnu ar ganlyniadau'r cynllun peilot hwnnw, o ran a fydd rhanbarthau'n wybodus ac yn barod i fwrw ymlaen â'r dull hwn o fis Ebrill 2019 ymlaen.

**Cwestiwn 8** - A oes unrhyw broblemau sy'n ymwneud â'r effaith ar y Gymraeg, cydraddoldeb neu hawliau plant mewn perthynas â'r canllawiau drafft hyn yr hoffech dynnu sylw atynt?

Rydyn ni wedi delio â hawliau dynol plant yn gynharach yn yr ymateb hwn. Yn ôl ein profiad ni, mae iaith yn gallu bod yn hwylusydd pwysig wrth ddarparu gwasanaethau cymorth yn llwyddiannus, ac mae’n llwybr i sicrhau bod modd darparu gwasanaethau’n fwy teg. Dylid felly ystyried anghenion ieithyddol defnyddwyr gwasanaethau fel rhan allweddol o ystyriaethau’r comisiynydd.

**Cwestiwn 9** - Rydyn ni wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw, gallwch eu nodi isod:

Dim i’w nodi.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu darparu i'r cyhoedd, ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych fod yn ddienw, rhowch dic yn y blwch: ☐